

# **Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau Iaith Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2019 - 2020**

Paratowyd yn unol â gofynion



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Mai 2020

## 1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, na fydd yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 1.2 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar y Cyngor, ymhlith sefydliadau eraill, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi cael 167 o Safonau i gydymffurfio â nhw yn y meysydd a ganlyn:
  - Cyflenwi Gwasanaethau
  - Gweithredu
  - Llunio Polisi
  - Hybu
  - Cadw Cofnodion
- 1.3 Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg (gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd).
- 1.4 Pwrpas y Safonau yw:
  - rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr iaith Gymraeg
  - rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y medrant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
  - sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.
- 1.5 Mae Safonau'r Gymraeg yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a gymeradwywyd gyntaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 23 Gorffennaf 1997, ac a ddiwygiwyd ar 14 Mai 2004 ac yna ar 23 Ebrill 2009.
- 1.6 Er bod y Cyngor eisoes yn cydymffurfio â mwyafrif y Safonau Iaith Gymraeg fel rhan o'u Cynllun Iaith Gymraeg cynt, mae'r Safonau wedi darparu cyfle i atgyfnerthu'r gofynion i sicrhau cydymffurfiaeth.
- 1.7 Mae'r adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd yn swyddfeydd cyhoeddus y Cyngor ac ar ei wefan gyhoeddus. Mae'r adroddiad hefyd yn cael ei gylchredeg i'r gwasanaethau unigol i gyd drwy gyfrwng swyddogion cyswllt y Gymraeg ac yn ogystal â hyn, cyhoeddir gwybodaeth am yr adroddiad monitro cyffredinol ynghyd â'r argymhellion ar y fewnwyd a'i ddosbarthu drwy gyfrwng negeseuon ar y system negeseuon mewnol, yn y Briff Tîm ac yn y Newyddlen Staff. Bydd dolen gyswllt i'r ddogfen hon yn cael ei rhannu gyda staff derbynfydd y Cyngor a byddwn yn rhoi gwybod wrth drigolion Conwy amdano.
- 1.8 Mae'r adroddiad monitro hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu yn deillio o'r Safonau Iaith Gymraeg. Casglwyd y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn o ganlyniad i'r monitro parhaus y mae'r Cyngor yn ei gynnal ar ei Wasanaethau.

## 2.0 CYNNYDD SYLWEDDOL

2.1 Mae sawl ymgyrch wedi golygu fod cynnydd yn nifer y cyfleoedd sydd ar gael i staff ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg a'i gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Dyma grynodedb ohonynt:

2.1.1 **Gwersi Cymraeg** – Yn dilyn llwyddiant y cyrsiau Cymraeg Gwaith yn ystod 2018-2019, roeddem yn hynod o falch o gael ein dewis i fod yn rhan o gynllun peilot yn ystod 2019-2020. Roedd y cynllun peilot yn rhan o raglen 'Cymraeg Gwaith' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i datblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Rhaglen benodol i gryfhau sgiliau Cymraeg mewn gweithleoedd ledled Cymru yw Cymraeg Gwaith ac mae'n cynnig hyfforddiant addas, hyblyg, sydd wedi ei ariannu'n llwyr. Prif elfen y Cynllun Peilot oedd bod Tiwtor Cymraeg yn cael ei chyflogi gan y Ganolfan ond yn gweithio yng Nghyngor Conwy yn darparu gwersi Dysgu Cymraeg i aelodau staff y Cyngor. Eleni, bu 80 aelod o staff y Cyngor yn dysgu Cymraeg ar lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd, bu 15 aelod o staff ar gwrs Canolradd yn Nant Gwrtheyrn a bu 13 aelod o staff ar gwrs Gloywi iaith am 10 wythnos. Cafodd y cyrsiau i gyd eu hariannu drwy'r Cynllun. Yn dilyn llwyddiant y Cynllun Peilot, rydym wrth ein boddau y bydd y cyrsiau wedi'u hariannu yn cael parhau yn 2019-2020 hefyd.

2.1.2 **Sgiliau iaith Gymraeg** – Bellach, mae sgiliau iaith pob gwasanaeth yn cael eu monitro bob chwe mis yng nghyfarfodydd Adolygu Perfformiad Gwasanaethau bob gwasanaeth unigol. Mae Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr hefyd yn cael gwybodaeth am allu iaith Gymraeg gweithwyr yn eu gwasanaethau gan Reolwr y Gwasanaethau iaith Gymraeg a Chyfieithu hefyd, a thrafodir os a phan welir manau gwan. Ni chafwyd yr un achos o hyn yn ystod 2019-2020 gyda chanrannau siaradwyr Cymraeg rhugl phob gwasanaeth wedi cynyddu neu wedi aros yr un fath ers y llynedd.

2.1.3 **Achos Busnes i Benodi Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg** – rydym yn hynod o falch bod Achos Busnes i benodi Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg wedi cael ei gymeradwyo ganol mis Mawrth 2020. Bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i gael swyddog penodol ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ymhellach yn y sir. Roeddem wedi bwriadu mynd ati i hysbysebu'r swydd a phenodi iddi ddechrau Ebrill, ond oherwydd y sefyllfa sydd ohoni efo argyfwng y coronafeirws, bu rhaid oedi'r broses recriwtio am y tro.

### 3.0 ARGYMHELLION AR GYFER GWELLA / CYNNYDD PELLACH

3.1 Dyma'r prif feysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros y flwyddyn nesaf:

3.1.1 **Strategaeth Hybu'r Gymraeg** – Pan fydd y Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg wedi cael ei benodi, yna bydd modd i ni symud ymlaen gyda'n bwriad i ddatblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn sylweddol. Bydd hyn yn golygu y bydd yr iaith Gymraeg yn ffynnu ymhellach fyth yng Nghonwy, gan osod y sir yng nghanol strategaeth a nod Llywodraeth Cymru o greu neu sicrhau 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chreu Conwy yn sir lle mae diwylliant Cymraeg a Chymreig yn hyfyw ac yn fywiog ac lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu ac yn datblygu.

3.1.2 **Gwersi Cymraeg** – Oherwydd y sefyllfa bresennol gyda'r coronafeirws, mae'r Gwersi Dysgu Cymraeg drwy Cymraeg Gwaith i gyd yn cael eu cynnal ar-lein ar hyn o bryd. Byddwn yn monitro cynllun Cymraeg Gwaith 2020-2021 yn ofalus iawn i wneud yn siŵr bod pawb yn elwa o'r cynlluniau ac er mwyn cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Cyngor. Ar ôl i'r argyfwng hwn basio, rydym hefyd yn gobeithio y bydd modd i ni gynnig cwrs Gloywi iaith arall hefyd.

#### 4.0. CADW COFNODION

4.1 **Cwynion** – Yn anffodus, cafwyd 1 gŵyn am wallau mewn poster Cymraeg yn ystod 2019-2020, manylion fel a ganlyn:

Dyddiad	Cyfeirnod	Natur y Gŵyn	Yn ymwneud â pha Wasanaeth	Camau a gymerwyd, a'r modd y cafodd ei datrys
24/9/19	<b>GF37525</b> – Neges gan aelod o'r cyhoedd	Cwyn am wallau mewn poster mewn Canolfan Hamdden	Gwasanaeth Datblygu Cymunedol	<p>24/9/19 – cael neges e-bost gyda manylion y gŵyn drwy system gwynion y Cyngor.</p> <p>25/9/19 – Rheolwr y Gwasanaeth Iaith a Chyfieithu yn trafod y mater gyda Rheolwr y Ganolfan Hamdden.</p> <p>25/9/19 – Rheolwr y Ganolfan yn anfon ymddiheuriad at yr achwynydd ac yn newid y poster at y dyfodol.</p> <p>25/9/19 – Mater wedi'i ddatrys.</p> <p>3/10/19 – Rheolwr y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu yn cyfarfod â Rheolwr y Ganolfan ar ei gais i wirio posteri, hysbysiadau a deunydd eraill yn y Ganolfan Hamdden i sicrhau eu bod yn gywir.</p>

4.2 **Ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg** – Ni chafwyd unrhyw ymchwiliadau am honiad o fethu cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg eleni.

## 5.0 GWEITHLE DWYIEITHOG

### 5.1 Gwersi Cymraeg

- 5.1.1 Yn dilyn llwyddiant y cyrsiau drwy Gynllun Cymraeg Gwaith rhwng Medi 2018 a Mawrth 2019, roeddem yn hynod o falch o gael ein dewis i fod yn rhan o gynllun peilot am flwyddyn yn ystod 2019-2020. Drwy gydol y cynllun peilot, mae tiwtor Dysgu Cymraeg profiadol wedi bod yn gweithio'n llawn amser gyda'r Cyngor fel rhan o'r cynllun ers mis Mai 2019 sy'n golygu bod staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi medru manteisio ar gynllun Dysgu Cymraeg arloesol, diolch i bartneriaeth newydd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- 5.1.2 Nod y Cynllun Cymraeg Gwaith yw cryfhau sgiliau Cymraeg mewn gweithleoedd ledled Cymru ac mae'n cynnig hyfforddiant addas, hyblyg, sydd wedi ei ariannu'n llwyr. Roedd y Cyngor yn falch iawn o gael y buddsoddiad enfawr hwn gan y Ganolfan er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg staff y Cyngor.
- 5.1.3 Mae hyn wedi bod yn ddatblygiad cyffrous iawn, ac mae'r cyrsiau hyn wedi gwneud wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ddarpariaeth gwersi Cymraeg i staff y Cyngor, yn enwedig cael Tiwtor Cymraeg yma'n llawn amser gyda ni. Mae cael tiwtor ar y safle drwy'r wythnos, sydd ag ystafell ddysgu benodol a chyfrif e-bost Cyngor Conwy wedi golygu bod mwy o gysylltiad rhyngddi hi a'r dysgwyr.
- 5.1.4 Eleni, bu 80 aelod o staff y Cyngor yn dysgu Cymraeg ar lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd a bu 15 aelod o staff ar gwrs Canolradd yn Nant Gwrtheyrn. Bu 13 aelod o staff ar gwrs Gloywi Iaith am 10 wythnos hefyd. Cafodd y cyrsiau i'r 108 aelod o staff eu hariannu drwy'r Cynllun. Rydym wedi gwirioni bod nifer mor fawr o staff yn dysgu ac yn gwella eu sgiliau Cymraeg, yn enwedig y cynnydd yn eu hyder wrth iddynt ddefnyddio eu sgiliau yn y gweithle.
- 5.1.5 Mae pob dosbarth yn y Cynllun Peilot yn cynnwys amrediad eang o staff o wahanol adrannau'r Cyngor, gyda nifer fawr o'r staff yn gweithio yng ngwasanaethau rheng-flaen y Cyngor fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Addysg, Gwasanaeth Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau a'r Gwasanaethau Rheoleiddio. Mae pob dosbarth hefyd yn cynnwys unigolion o wahanol haenau o awdurdod o fewn y Cyngor.
- 5.1.6 Un o amcanion y Cynllun Peilot oedd y dylai'r Cyngor anelu i gael 30 o fyfyrwyr i barhau â'u cwrs i ddysgu Cymraeg yn 2020/2021. O'r 80 dysgwr sy'n mynychu'r cyrsiau, mae 65 ohonynt eisiau parhau i ddysgu Cymraeg, sef 72% ohonynt. O'r 15, mae 7 yn gadael y Cyngor i swyddi mewn sefydliadau eraill.
- 5.1.7 Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn diwethaf, gellir gweld, heb unrhyw amheuaeth bod y Cynllun Peilot wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Mae staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wir yn ffodus iawn cael bod yn rhan o Gynllun Peilot o'r fath, ac wedi elwa'n fawr iawn o gael y cyrsiau dwys hyn. Yn dilyn llwyddiant y Cynllun Peilot, rydym wrth ein boddau bod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi ariannu 5 cwrs yn ystod 2020-2021 hefyd sy'n golygu y bydd gennym Diwtor Dysgu Cymraeg llawn amser yn gweithio efo ni am y flwyddyn arall. Mae hyn yn golygu y bydd staff yn gallu parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a chyfrannu mewn ffordd fechan, ond pwysig iawn, tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- 5.2 **Dathlu Diwrnod Shw Mae Su' Mae 2019** – Penderfynwyd cynnal digwyddiad gyda'r dysgwyr i Ddathlu Diwrnod Shw Mae Su' Mae 2019. Cynhaliwyd Bore Coffi ar gyfer y dysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Daeth dysgwyr, siaradwyr Cymraeg rhugl ac ambell un heb unrhyw Gymraeg i ymuno yn y dathliad. Roedd cyfle yn ystod y bore i gael paned a phrynu teisen ac

anogwyd y dysgwyr i sgwrsio yn Gymraeg. Roedd yr ymateb i'r digwyddiad yn gadarnhaol ac roedd pob un o'r dysgwyr a fynychodd wedi mwynhau siarad yn Gymraeg efo cyd-weithwyr.

**5.3 Cortynnau Gwddf Iaith Gwaith** - Mae'r galw am gortynnau gwddf iaith gwaith wedi parhau i gynyddu eto eleni, gyda mwyfwy o staff a'r cyhoedd yn gwneud cais amdanynt. Mae pob aelod o staff y Cyngor sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn gwisgo cortyn gwddf neu fathodyn iaith gwaith. Cawsom adborth gadarnhaol iawn yn ystod y flwyddyn am lawer mwy o sgysiau yn cael eu cychwyn yn Gymraeg oherwydd bod pob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn eu gwisgo bellach. Mae hyn hefyd yn cael ei gynnwys fel rhan o'r rhestr wirio ar y Ffurflen Cyflwyno Gweithiwr Newydd ac yn rhan o'r wybodaeth a roddir yn ystod y Cyflwyniad Corfforaethol i bob aelod newydd o staff.

**5.4 Cortynnau Gwddf Dysgwyr** – Mae'r Cortynnau Gwddf Dysgwyr yn parhau i fod yn boblogaidd iawn hefyd ac mae'r galw am gortynnau gwddf dysgwyr wedi cynyddu hefyd eleni. Mae hynny'n rhannol oherwydd y Cynllun Peilot Cymraeg Gwaith wrth gwrs gan i Reolwr y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu rannu'r cortynnau gwddf gyda'r dysgwyr yn ystod y flwyddyn. Braff yw cael adrodd bod eu hyder wedi cynyddu'n arw yn ystod y flwyddyn. Cafwyd adborth gan rai dysgwyr Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf nad oeddent yn teimlo'n gyffyrddus yn gwisgo'r cortyn gwddf iaith gwaith oherwydd bod pobl yn ystyried bod hynny'n dynodi eu bod yn rhugl yn Gymraeg, felly cawsom gortynnau gwddf 'Dysgwr' ar eu cyfer, ac mae nifer fawr iawn o staff yn eu gwisgo bob dydd. Cafwyd adborth ychwanegol eleni yn nodi bod y cyhoedd a staff yn fwy amyneddgar gyda staff sy'n dysgu Cymraeg ac yn dymuno ymarfer eu sgiliau, a rhai wedi cychwyn darparu gwasanaeth yn Gymraeg wrth ymdrin â'r cyhoedd am y tro cyntaf oherwydd hyn.

**5.5 Teclyn Sgiliau Iaith a Negeseuon E-bost** – Bu'r teclyn hwn ar waith ers dros dair blynedd bellach, ac mae'n parhau i fod yn llwyddiannus iawn. Drwy gymorth y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, mae'r Teclyn Sgiliau Iaith wedi'i gysylltu â'r rhestr staff sydd â chyfrif e-bost. Felly, os ydi aelod o staff yn ysgrifennu neges e-bost at aelod arall o staff y Cyngor, a bod yr aelod hwnnw o staff yn siarad Cymraeg, bydd neges yn ymddangos uwchben ei enw ar y neges yn dweud:

“Rydw i'n siarad Cymraeg / I can speak Welsh”.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn eleni ynglŷn â hyn gan fod hyn o gymorth mawr i staff y Cyngor wrth gyfathrebu â staff eraill ac yn golygu ei bod hi'n haws o lawer gwybod beth yw sgiliau iaith y staff yr ydych yn cysylltu â nhw. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cysylltodd sawl aelod o staff â'r Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu i ddweud pa mor ddefnyddiol ydi'r teclyn hwn gan nodi eu bod wedi cychwyn llawer mwy o sgysiau dros e-bost yn Gymraeg ers dyfodiad y teclyn. Cafwyd adborth hefyd mewn sesiwn Cyflwyniad Corfforaethol gan staff newydd yn nodi eu bod wedi gwirioni â'r teclyn hwn ac yn nodi ei fod yn ddefnyddiol iawn yn enwedig gan nad ydynt yn nabod prin neb eto.

**5.6 Logo Iaith Gwaith ar waelod e-bost** - Mae staff sy'n medru'r Gymraeg yn cynnwys logo ar waelod eu llofnod e-bost i adael i gwsmeriaid a chydweithwyr wybod eu bod yn medru'r Gymraeg. Yn yr un modd, rydym wedi datblygu logo ar gyfer dysgwyr sy'n nodi 'Dw i'n dysgu Cymraeg'. Mae nifer fawr o ddysgwyr wedi cynnwys y logo hwn ar waelod eu llofnod e-bost.

**5.7 Prif dderbynfa** - Lleolir dwy brif dderbynfa/switsfwrdd y Cyngor ym mhrif swyddfeydd y Cyngor ym Modlondeb, Conwy a Choed Pella, Bae Colwyn. Dynodwyd pob un o swyddi'r prif derbynfeidd/switsfwrdd yn rhai Cymraeg hanfodol ac mae pob un o'r 12 aelod o staff (100%) sy'n gweithio yno yn ddwyieithog ac yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg lefel 4 neu uwch.

**5.8 Venue Cymru & Theatr Colwyn**

5.8.1 Bu staff Venue Cymru a Theatr Colwyn yn hynod ffodus hefyd gan iddynt gael eu dewis i fod yn rhan o gynllun peilot dysgu Cymraeg, gan gynnig cyrsiau am ddim i'n staff. Mae'r hyfforddiant ar gyfer pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg o gwbl yn ogystal â dysgwyr sydd eisiau parhau i ddysgu. Bydd y Cyngor Celfyddydau yn ariannu'r cyrsiau hyn yn llwyr. Mae rhan o'r hyfforddiant yn cael ei ddylunio'n arbennig ar gyfer staff Venue Cymru a Theatr Colwyn.

5.8.2 Cymryd Rhan yw prif ddigwyddiad Venue Cymru ar gyfer pobl ifanc creadigol. Mae Cymraeg wedi bod wrth wraidd ei raglen bob amser. Maen nhw'n cyflogi ymgynghorydd, Sian Eirian, yn benodol ar gyfer rhaglennu digwyddiadau a gweithdai iaith Gymraeg. Yn 2020 roedd y digwyddiadau iaith Gymraeg yn cynnwys:

- Ein prif ddigwyddiad yn ystod y penwythnos, unwaith eto, oedd Sioe Cyw – bu tri perfformiad a chyfle i blant gyfarfod â'r cymeriadau.
- Daeth Rownd a Rownd atom i gynnal gweithdai drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cafwyd sesiynau Holi ac Ateb efo Pobl y Cwm a chyfle i gyfarfod y cast, eto drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynhaliodd Lloyd Macy ddigwyddiadau theatr cerdd dwyieithog.
- Cynhaliodd Mudiad Meithrin sesiynau galw i mewn yn Gymraeg ar gyfer plant bach.
- Bu Menter Iaith Conwy yn cynnal sesiynau iwcaili a sesiynau canu yn Gymraeg.
- Cynhaliodd Mad As Bird Films ysgol ffilm ddwyieithog gyda Celyn Jones.
- Daeth Only Boys Aloud atom i gynnal gweithdai a pherfformiadau dwyieithog.
- Gweithdai pecynnau radio – cynhaliodd dau newyddiadurwr y BBC weithdai dwyieithog a chafodd y cynnwys ei ddarlledu yn Gymraeg.
- Cynhaliodd yr Urdd sesiynau galw mewn yn Gymraeg drwy'r dydd.
- Cynhaliodd Opera Genedlaethol Cymru weithdai dwyieithog.
- Cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru sesiynau galw mewn dwyieithog.
- Bu Fiona Collins yn cynnal amser stori dwyieithog i fabis.
- Roedd sesiynau cerdd a storïau gyda Sian Miriam yn ddwyieithog.
- Roedd sesiynau dawns y gloesen gyda Hannah Rowlands yn ddwyieithog.
- Cynhaliwyd gweithdai dawns yn ddwyieithog a chynhaliwyd un sesiwn yn gyfan gwbl yn Gymraeg.

5.9 **Llyfrgelloedd** - Mae nifer o ddigwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn cael eu cynnal yn ein llyfrgelloedd ac mae sesiynau panad a sgwrs wedi cael eu cynnal yno hefyd dros y flwyddyn ddiwethaf.

5.10 **Adain Diwylliant a Gwybodaeth** - Ers mis Mawrth 2019, mae'r Adain Diwylliant a Gwybodaeth wedi bod yn cynnal sesiynau efo grŵp o ddysgwyr/siaradwyr Cymraeg fel rhan o'r cynllun 'Siarad' - h.y. bod dysgwyr yn cael eu paru gyda siaradwyr Cymraeg rhugl er mwyn ymarfer siarad yn Gymraeg. Maen nhw wedi gweithio gyda'r llyfrgelloedd, Menter Iaith Conwy ac Adran Iaith Prifysgol Bangor i sefydlu'r grŵp iaith Gymraeg yng Nghonwy er mwyn i siaradwyr Cymraeg sy'n byw wrth yr arfordir fedru ymarfer siarad Cymraeg. Cynhaliwyd deg sesiwn ers mis Mawrth 2019, gan gynnwys teithiau tywys o gwmpas parc Bodlondeb; taith sain o gwmpas Llanrwst; sesiynau digidol; sesiynau cymdeithasol etc. Mae'r sesiynau yma yn cael eu cynnal ar yr ail ddydd lau o bob mis. Mae 33 aelod yn y grŵp, a chymysgedd o siaradwyr rhugl a dysgwyr. Bellach, mae aelodau'r grŵp wedi mynd ati i gynnal sesiynau eu hunain ar gyfer ymarfer siarad Cymraeg yn unig, sy'n cael ei gynnal ar y dydd lau olaf o bob mis. Felly, erbyn hyn, mae dwy sesiwn siarad Cymraeg yn cael eu cynnal bob mis. Wrth i'r flwyddyn hon ddod i ben, a chyda'r sefyllfa dyrys y coronafeirws, mae rhai sesiynau



wedi cael eu cynnal ar-lein drwy gyfleuster Zoom hefyd, gyda'r bwriad i barhau fel hynny am y tro.

## 5.11 Sgiliau Iaith Gymraeg Staff y Cyngor

5.11.1 Ers datblygu teclyn sy'n ymddangos ar gyfrifiaduron pawb sy'n medru casglu gwybodaeth am sgiliau ieithyddol y staff gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, bu gwelliant yng nghywirdeb cofnodi ystadegau sgiliau ieithyddol staff. Bellach, mae bob aelod o staff y Cyngor yn medru defnyddio'r teclyn hwn, ac rydym, gyda chymorth y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi casglu gwybodaeth am bob aelod o staff erbyn hyn, gan gynnwys y rhai nad ydynt â mynediad i'r fewnwyd. Ac eithrio ysgolion, a staff sy'n gweithio i awdurdodau eraill, mae'r awdurdod yn cyflogi 1,834 o staff parhaol. Dyma fanylion sgiliau iaith Gymraeg y 1,834 o staff sydd wedi llenwi gwybodaeth am eu sgiliau iaith Gymraeg:

### Sgiliau Iaith Gymraeg Staff y Cyngor:

Gwrando / Siarad			Darllen / Deall			Ysgrifennu					
Lefel		Nifer y staff	%	Lefel		Nifer y staff	%	Lefel		Nifer y staff	%
Lefel 0		414	23	Lefel 0		419	23	Lefel 0		577	31
Lefel 1	DYSGU CYMRAEG	448	24	Lefel 1	DYSGU CYMRAEG	490	27	Lefel 1	DYSGU CYMRAEG	419	23
Lefel 2		239	13	Lefel 2		192	10	Lefel 2		198	11
Lefel 3		161	9	Lefel 3		164	9	Lefel 3		163	9
Lefel 4		199	11	Lefel 4		199	11	Lefel 4		155	8
Lefel 5	RHUGL	373	20	Lefel 5	RHUGL	370	20	Lefel 5	RHUGL	322	18
CYFANSWM		1,834		CYFANSWM		1,834		CYFANSWM		1,834	

5.11.2. Mae staff y cyngor wedi defnyddio'r teclyn ar y fewnwyd i nodi eu sgiliau iaith Gymraeg gan ddefnyddio'r tabl a welir yn y Strategaeth Sgiliau Iaith.

5.11.3 O'r tabl, gwelir bod 31% wedi nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl (Lefel 4 a 5). Mae hyn yn gyson â 29% o staff a nododd eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl yn ystod 2018-19 a 30% o staff a nododd eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl yn ystod 2017-18. Mae cynnydd bychan i'w weld yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar Lefel 2 hefyd, sydd yn rhannol o leiaf, oherwydd y gwersi Cymraeg dwys sydd wedi cael eu cynnal ers dros flwyddyn.

5.11.4 Gellir gweld y dadansoddiad fesul gwasanaeth isod.

5.11.5 Yn y tabl hwnnw, gellir gweld bod canrannau siaradwyr Cymraeg bob gwasanaeth naill ai wedi cynyddu neu heb newid ers y llynedd sydd yn gadarnhaol iawn.

Gwasanaeth	Cyfanswm Staff	Nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5)	Newid canran o 2018-19?	Nifer y staff sy'n Dysgu Cymraeg (Lefelau 1, 2 a 3)	Newid canran o 2018-19?	Nifer y staff sydd â dim gallu Cymraeg (Lefel 0)
Adnoddau Dynol	22	6 (27%)	+4%	11 (50%)	Dim newid	5 (23%)
Adran y Prif Weithredwr	6	1 (16.5%)	Dim newid	4 (67%)	Dim newid	1 (16.5%)
Addysg	133	66 (50%)	Dim newid	51 (38%)	+3%	16 (15%)
Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	223	65 (29%)	+2%	101 (45%)	+2%	57 (30%)
Archwilio Mewnol	12	1 (8%)	Dim newid	7 (58.5%)	Dim newid	4 (33.5%)
Gwasanaeth Ariannol Corfforaethol	41	10 (24%)	+8%	20 (49%)	-7%	11 (27%)
Gwasanaeth Datblygu Cymunedol	238	87 (37%)	+8%	112 (47%)	-7%	39 (16%)
Gwasanaeth Digwyddiadau Corfforaethol, Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Marchnata	12	3 (25%)	Dim newid	5 (42%)	Dim newid	4 (33%)
Gwasanaethau Cymdeithasol – Oedolion	537	151 (28%)	+1%	264 (49%)	+4%	122 (23%)
Gwasanaethau Cymdeithasol – Plant	181	36 (20%)	+1%	70 (39%)	+1%	75 (41%)
Refeniw a Budd-daliadau	72	21 (29%)	Dim newid	33 (46%)	+3%	18 (25%)
Rheoleiddio a Thai	137	35 (26%)	+7%	80 (58%)	+1%	22 (16%)
Rheoli Stadau ac Asedau	7	2 (29%)	+4%	4 (57%)	-5.5%	1 (14%)
Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol	61	15 (25%)	+3%	30 (49%)	-1%	16 (26%)
Theatrau a'r Ganolfan Gynadledda	71	18 (25%)	Dim newid	34 (48%)	+1%	19 (27%)
Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol	10	1 (10%)	+1%	7 (70%)	-3%	2 (20%)
Y Gyfraith a Llywodraethu	71	55 (77%)	+4%	14 (20%)	-3%	2 (3%)
<b>CYFANSWM</b>	<b>1834</b>	<b>572 (31%)</b>		<b>848 (46%)</b>		<b>414 (23%)</b>

5.12 **Recriwtio - Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn** – Dyma fanylion am nifer/canran y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol; a nifer/canran y swyddi ym mhob categori lle penodwyd siaradwyr Cymraeg.

Dynodiad	Nifer a % fesul categori iaith	Nifer a % y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg
HANFODOL	31% - 117 swydd	O'r 99 swydd a recriwtiwyd iddynt, penodwyd siaradwyr Cymraeg (lefel 4 ac uwch) i bob un (100%) ohonynt.  Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 18 o'r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau.
DYMUNOL	69% - 270 swydd	O'r 258 swydd y recriwtiwyd iddynt, roedd 140 swyddog yn siarad Cymraeg yn rhugl (54%).  Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 12 o'r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau.
<b>CYFANSWM YM MHOB DYNODIAD</b>	383 swydd	Felly, o'r 357 swydd y recriwtiwyd iddynt, penodwyd cyfanswm o 239 o siaradwyr Cymraeg rhugl, sef canran o 67%.

5.13 **Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd** – Gwelir isod fanylion am nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant yn Gymraeg i lefel o Gymhwyster penodol a nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod 2019-2020.

#### 5.13.1 Cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle

Dyddiad / Hyd y cwrs	Addas ar gyfer	Manylion	Cais	Cyfanswm wnaeth fynychu
Mynediad 1 a 2	Y rhai sy'n dymuno dysgu Cymraeg	Cwrs rhwng mis Mehefin 2019 a mis Mawrth 2020 ar gyfer pobl sy'n dymuno dysgu Cymraeg	Dewis personol y staff	41
Sylfaen 1 a 2				27
Canolradd				12
Cwrs 'Defnyddio Cymraeg Gwaith', Lefel Canolradd (Nant Gwrtheyrn)				15
<b>CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU'R CWRS</b>				<b>95</b>

#### 5.13 Cyrsiau Gloywi Iaith

Dyddiad / Hyd y cwrs	Addas ar gyfer	Manylion	Cais	Cyfanswm wnaeth fynychu
Mis Tachwedd 2019 ymlaen	Unrhyw aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac sydd eisiau gwella eu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig	Cwrs Gloywi Iaith am 10 wythnos	Dewis personol y staff	13
<b>CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU'R CWRS</b>				<b>13</b>

**5.13.3 Arholiadau Defnyddio'r Gymraeg –CBAC** Anogwyd pob dysgwr sydd wedi cwblhau astudio'r Gymraeg ar Lefel Mynediad i wneud arholiad Defnyddio'r Gymraeg: Mynediad fel rhan o'r prosiect Cymraeg Gwaith. Hyd yn hyn mae 17 o ddysgwyr lefel Mynediad wedi gwneud yr arholiad ers mis Mai 2019 – 5 yn ystod yr Haf 2019 a 12 ym Mis Ionawr 2020.

#### 5.13.4 Amrywiol Gyrsiau a Gynigwyd /Gynhaliwyd Yn Gymraeg

Cwrs a gynigwyd	Sawl cwrs gafodd ei gynnig yn Gymraeg?	Cyfanswm wnaeth fynychu
Recriwtio Diogel i Reolwyr (Safon 128, (a) recriwtio a chyfweld)	2	Ni chafodd ei gynnal oherwydd nad oedd digon wedi cofrestru.
Rheoli'r Broses Gwerthuso Staff (Safon 128, (b) rheoli perfformiad)	1	Ni chafodd ei gynnal oherwydd nad oedd digon wedi cofrestru
Rheoli'r Broses Ddisgyblu (Safon 128, (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu)	1	Ni chafodd ei gynnal oherwydd nad oedd digon wedi cofrestru
Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (Safon 128, (dd) iechyd a diogelwch)	2	Ni chafodd ei gynnal oherwydd nad oedd digon wedi cofrestru

#### 5.13.5 Sesiwn Gyflwyno Gorfforaethol / Ymwybyddiaeth Iaith

Dyddiad / Hyd y cwrs	Addas ar gyfer	Manylion	Cais	Cyfanswm wnaeth fynychu
14/5/2019	Aelodau newydd o staff – (Dylai pob aelod o staff newydd fynychu sesiwn gyflwyno /gorfforaethol o fewn 6 mis o ddechrau gweithio efo'r cyngor.)	Caiff y swyddogion anerchiad gan y Prif Weithredwr, gyda rhan o'r anerchiad yn Gymraeg. Mae rhai o'r cyflwyniadau yn ystod y sesiwn hanner diwrnod yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg, gan gynnwys cyflwyniad gan y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu am weithredu'r Safonau Iaith Gymraeg, y Cymorth a'r Gefnogaeth sydd ar gael, defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ac ymwybyddiaeth a hanes yr iaith ( <b>Staff o amrywiol wasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</b> )	Gorfodol i bob aelod newydd o staff sy'n cychwyn gweithio gyda'r Cyngor	34
12/7/2019				33
18/9/2019				28
15/11/2019				46
13/1/2020				39
10/3/2020				40
<b>CYFANSWM Y NIFER WNAETH FNYNCHU'R CWRS</b>				<b>220</b>

5.13.5.1 Gwelir o'r ystadegau uchod bod 220 o aelodau staff wedi cael gwybodaeth ymwybyddiaeth iaith eleni.

## **6.0 Camau Gweithredu i Gydymffurfio â'r Safonau**

### **6.1 Rhestr o gamau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**

- Rydym wedi darparu gohebiaeth i staff am ymateb i ohebiaeth, trefnu cyfarfodydd, ateb y ffôn, cyfryngau cymdeithasol, recriwtio, negeseuon e-bost, arwyddion a chyfathrebu mewnol.
- Rydym wedi sicrhau bod staff yn cynnig trosglwyddo galwad i siaradwr Cymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor (os nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg eu hunain).
- Rydym wedi darparu geiriad i staff i'w gynnwys mewn templedi llythyr, gan gynnig cyfle i drigolion ofyn am ohebiaeth yn Gymraeg yn y dyfodol.
- Rydym wedi hysbysu staff sy'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus y dylai pob gwahoddiad i'r cyfarfod fod yn ddwyieithog, y dylid trefnu cyfieithwyr ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ac y dylai trefnwyr cyfarfodydd cyhoeddus atgoffa pobl ar ddechrau cyfarfodydd y gallant gyfrannu yn Gymraeg.
- Mae'r holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys deunydd hyrwyddo a dogfennaeth arddangos.
- Mae'r rhyngwyneb, dewislenni a phob tudalen ar ein gwefan yn ddwyieithog.
- Mae'r holl arwyddion yn cael eu gwirio ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau.
- Mae arwyddion wedi cael eu gosod mewn prif dderbynfeydd i ddatgan bod croeso i bobl gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae pob hysbysiad a hysbyseb cyhoeddus yn ddwyieithog
- Mae pob ffurflen grant a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ymateb yn Gymraeg ac mae unrhyw gyfweiliadau sydd eu hangen yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg (gyda chymorth cyfieithydd ar y pryd os oes angen).

### **6.2 Rhestr o gamau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â'r Safonau Gweithredu**

- Rydym wedi cynhyrchu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith ac mae'r ddogfen hon wedi cael ei chyhoeddi ar ein mewnwyd.
- Mae'r rhyngwyneb, dewislenni a phob tudalen ar ein mewnwyd yn ddwyieithog
- Rydym wedi cyflwyno proses AD lle gofynnir i'r holl staff a ydynt yn dymuno cael eu contract cyflogaeth yn Gymraeg.
- Rydym yn gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth ar bapur yn ymwneud â'u cyflogaeth ac sydd wedi'i gyfeirio atynt yn bersonol (yn Gymraeg).
- Rydym yn gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno derbyn gohebiaeth ar bapur yn ymwneud â'u hanghenion neu ofynion hyfforddiant yn y Gymraeg.
- Rydym yn gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno cael dogfennau sy'n amlinellu eu hamcanion perfformiad yn Gymraeg a byddwn yn darparu dogfennau yn Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad.
- Rydym yn gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno cael dogfennau sy'n amlinellu eu cynllun gyrfa yn Gymraeg a byddwn yn darparu dogfennau yn Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad.
- Rydym yn gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno derbyn ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldeb o'r gwaith ac oriau gwaith hyblyg yn y Gymraeg.
- Mae'r staff yn gallu gwneud cwynion yn Gymraeg drwy'r drefn gwyno gorfforaethol ac mae staff yn gwybod am hyn.

- Mae Gweithdrefn Gwyno Corfforaethol y Cyngor eisoes yn nodi y gall staff wneud cwyn yn y Gymraeg ac mae ganddynt hawl i ymateb i gŵyn a wnaed amdanynt yn Gymraeg. Mae'r staff wedi cael gwybod am yr hawl honno.
- Bydd y staff yn cael cynnig cyfle i gynnal unrhyw gyfarfodydd ynglŷn â chwynion a wneir yn eu herbyn yn y Gymraeg (gyda neu heb ddefnyddio cyfieithydd).
- Bydd unrhyw gofnod o benderfyniad sy'n ymwneud â chwyn yn erbyn aelod o staff yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg (a bydd unrhyw gyfarfod dilynol yn cael ei gynnal yn Gymraeg).
- Mae ein polisïau Adnoddau Dynol yn datgan y gall staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn eu herbyn.
- Mae meddalwedd cyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg wedi cael ei ddarparu i bob aelod o staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg a darperir rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (megis Microsoft Word) pan fo staff yn dymuno cael hynny.
- Mae testun ein hafan dudalen ar y fewnrwyd yn Gymraeg.
- Mae unrhyw dudalennau ar y fewnrwyd sydd â thudalennau cyfatebol yn Gymraeg yn cynnwys dolen gyswllt uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg.
- Mae tudalennau ar y fewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cefnogi i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chynorthwyo staff wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg.
- Mae'r rhyngwyneb a dewislenni ar y fewnrwyd yn Gymraeg.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr trwy hunanasesiad.
- Mae'r Cyngor yn hyrwyddo cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i weithwyr gael cyrsiau Cymraeg sylfaenol.
- Mae'r Cyngor yn darparu cyfleoedd i staff sydd eisïau gwella eu hyfforddiant Cymraeg sylfaenol drwy gynnig hyfforddiant pellach.
- Mae'r Cyngor yn datblygu modiwl e-ddysgu, er mwyn codi ymwybyddiaeth staff o'r iaith Gymraeg.
- Darperir gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i bob aelod o staff newydd.
- Rydym wedi darparu geiriad i staff ddefnyddio ar eu llofnod e-bost, i hysbysu pobl a ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr.

### **6.3 Rhestr o gamau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â'r Safonau Llundain Polisi**

- Rydym wedi hysbysu rheolwyr i ystyried effeithiau unrhyw bolisi newydd (neu ddiwygiadau i'r polisi) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg a sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Pan fydd polisi newydd yn cael ei lunio, rydym yn sicrhau bod yr holl reolwyr yn gwybod am yr angen i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar yr iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy gyflwyno adran ar adroddiadau ffurfiol y Cyngor a fydd yn dangos pa fath o ystyriaeth sydd wedi'i roi i'r iaith Gymraeg.
- Os caiff ymchwil ei gomisiynu a fwriedir i gynorthwyo gyda llunio polisïau, byddwn yn sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellir gwneud y penderfyniad polisi er mwyn sicrhau nad yw'n cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.
- Er mwyn sicrhau bod unrhyw ymgynghori ar bolisïau yn cynnig cyfle i bobl wneud sylwadau ar effeithiau unrhyw bolisïau newydd ar y defnydd o'r iaith Gymraeg, mae rheolwyr yn gwybod am yr angen hwnnw.